Statws *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 22

Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod etc. neu sydd wedi marw

Penodi datodwyr etc.

87.—(1) Rhaid i berson a benodir—

(a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i benodiad a'r rhesymau dros ei benodi;

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benodi, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i fwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y gwasanaeth" ("*the service*") yw'r gwasanaeth neu'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth y mae'r penodiad yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru i'w ddarparu neu eu darparu;

mae i "person a benodir" ("*appointed person*") yr un ystyr ag yn adran 30 o'r Ddeddf.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 87 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Marwolaeth darparwr gwasanaeth

88.—(1) Pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw, rhaid i gynrychiolwyr personol yr unigolyn—

(a) yn ddi-oed, rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r farwolaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau;

(b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r farwolaeth, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'u bwriadau ynglŷn â gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(2) Caiff cynrychiolwyr personol yr unigolyn weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth am gyfnod nad yw'n hwy nag 28 o ddiwrnodau neu am gyfnod hwy (nad yw'n hwy nag un flwyddyn) y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno.

(3) Pan fo'r cynrychiolwyr personol yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2), mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) nid yw adran 5 (gofyniad i gofrestru) yn gymwys;

(b) yn adran 21(2) (unigolion cyfrifol) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo cynrychiolwyr personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth, fod yn un o'r cynrychiolwyr personol;".

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gwasanaeth" yw'r gwasanaeth neu'r gwasanaethau rheoleiddiedig yr oedd y darparwr gwasanaeth sydd wedi marw wedi ei gofrestru i'w ddarparu neu eu darparu ar adeg ei farwolaeth.

Gwybodaeth Cychwyn

I2 Rhl. 88 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)